ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Mawrth 2019





Daeth Tim Penn i ymweld ag Adran Ffrangeg Ysgol Eifionydd dydd Gwener 15fed o Chwefror er mwyn hybu disgyblion i ddewis Ffrangeg yn CA4.

Trafodwyd pwysigrwydd Ffrangeg dros y byd, ac nid yn Ffrainc yn unig. Fel dyn busnes profiadol roedd Tim yn hybu'r disgyblion i sylweddoli eu bod yn unigryw os ydynt yn gallu siarad Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg ac eu bod yn hanfodol i ddyfodol busnes Cymru.

Dywedodd Cai Williams (blwyddyn 8) "Mae dysgu Ffrangeg yn helpu busnesau Cymru oherwydd eu bod yn gallu allforio".

Roedd ymweliad Tim yn pwysleisio fod dysgu iaith newydd yn agor ffenestr i'r byd.

Cystadleuaeth Maths 12/02/19 – holi Olwen am y llun a Helen Puw am wybodaeth.

Yn dilyn eu llwyddiant yn rownd gytaf y gystadleuaeth Sialens Maths i flwyddyn 10 mi aeth y pedwar aelod o'r tim, sef Amelie Lewin, Non Jones, Cynan Roberts ac Ade O'Neill ymlaen i Gonwy i'r rownd derfynol. Roedd 14 tim yn cystadlu yna, a llwyddodd Ysgol Eifionydd i ddod yn 6ed yn y gystadleuaeth, da iawn nhw.

Bl. 10 TGAU Addysg Gorfforol – Bu'r disgyblion yn cefnogi Athletau dan do ysgolion cynradd y dalgylch yng nghystadleuaeth 5x60 yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn yn ddiweddar.

Taith Sgïo Bl. 8 a 9 i Risoul, Ffrainc

Dros wythnos hanner tymor fe wnaeth yr Adran Addysg Gorfforol drefnu Taith Sgïo i rhai o ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 yr ysgol i Risoul, Ffrainc. Bu'n wythnos llawn amrywiaeth o weithgareddau o wersi sgïo, cwis, gemau a slejo ac yn wythnos fythgofiadwy, llawn hwyl. Dymuna'r athrawon ddiolch i'r disgyblion am eu cwmni difyr ac ymddygiad gwych drwy gydol y daith.